

PN006 – HYSBYSIAD PREIFATRWYDD GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Mae geiriad y ddogfen hon yn adlewyrchu gofynion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Maes Gwasanaeth CBST:	Adnoddau
Maes gwaith:	Gwasanaethau Cyfreithiol
Manylion Cyswllt:	Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl NP46YB LegalTeam@torfaen.gov.uk
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Gwasanaethau Cyfreithiol

Rheolwr Data:

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
d/o Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB**

Os ydych eisiau mynegi pryder ynglŷn â sut caiff eich data personol ei drin, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion isod:

Swyddog Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth:

**Susan Bullock
01633 647467
E-bost: dpa@torfaen.gov.uk**

Mae'r Hysbysiad hwn ar gyfer Unigolion lle rydym yn cadw gwybodaeth amdanynt, yr ydym yn ei defnyddio mewn Achosion / Cyngor Cyfreithiol a/neu Faterion Cytundebol. Bwriad yr Hysbysiad hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am y data rydym yn ei gadw amdanoch, sut rydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau chi mewn perthynas â'r data a'r rhagofalon sy'n bodoli i warchod hynny.

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol yn cadw data personol amdanoch yn ei rôl fel rheolydd data ar gyfer trin materion cyfreithiol yn briodol. Rhoddir gwybodaeth isod ar sut rydym yn defnyddio eich data personol.

1) Ydyn ni wedi cael eich data personol, yn uniongyrchol oddi wrthy chi?

Mewn rhai achosion, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn derbyn data personol yn uniongyrchol gennych chi.

Sut cawsom eich data personol?

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae data personol yn dod o feysydd Gwasanaeth eraill o fewn y Cyngor. Ar adegau, mae pobl neu sefydliadau eraill yn darparu data personol drwy wneud cwyn neu gyflwyno gwybodaeth ar ran rhywun arall. At hyn, gall asiantaethau allanol megis awdurdodau lleol eraill ddarparu data personol i'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

2) Pa wybodaeth mae'r Cyngor yn ei chasglu amdanoch chi?

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn cadw gwybodaeth sy'n gymwys ac yn berthnasol i wrthrych a phartion i drafodion cyfreithiol.

Bydd y math o wybodaeth yn amrywio, yn dibynnu ar ba faes o'r gyfraith sydd dan sylw.

Ond gall gynnwys:

- Enw, cyfeiriad, dyddiad geni, manylion cyswllt (rhif ffôn a chyfeiriad ebost lle bo'n briodol);
- Rhif Yswiriant Gwladol (os yn briodol);
- Gwybodaeth a dogfennau sy'n eich adnabod;
- Gwybodaeth deuluol gan gynnwys oedran, dibynyddion a statws priodasol;
- Cofnodion troseddol
- Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter
- Gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r mater cyfreithiol i'n galluogi ni i ddelio â'r achos. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o waith cyfreithiol sy'n cael ei wneud. Er enghraifft, mewn mater sy'n ymwneud ag Amddiffyn Plant, efallai y bydd angen i ni weld eich cofnodion meddygol. Yn ychwanegol at wybodaeth iechyd, efallai y bydd angen i ni hefyd brosesu data categori arbennig arall megis gwybodaeth fiometrïg a allai gynnwys cofnodion teledu cylch cyfyng a ffotograffau, ond byddem ond yn defnyddio'r wybodaeth hon os oedd ei hangen i ymgymryd â materion cyfreithiol ar ran y Cyngor.

3) Gall y Cyngor gasglu'r wybodaeth hon mewn amrywiaeth o ffyrdd: Gweler (1) a (2) uchod.

Byddwn yn storio eich data:

Mewn systemau ffeilio papur diogel neu'n electronig.

4) Pam fod y Cyngor yn prosesu eich data personol?

Mae angen i'r Gwasanaethau Cyfreithiol brosesu eich gwybodaeth bersonol:

- I gydymffurfio gyda'r gyfraith

Dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), y sylfeini cyfreithlon rydym yn dibynnu arnyn nhw i brosesu'r wybodaeth hon yw:

- I ymgymryd â thasg er budd y cyhoedd neu i arfer swyddogaeth swyddogol;
- Er budd dilys cynrychioli'r Cyngor mewn trafodion cyfreithiol;
- I ddiwallu rhwymedigaethau cytundebol a chyfreithiol mewn perthynas ag ymgymryd â chontract.

Dan rai amgylchiadau cyfyngedig, gellir gofyn am gydsyniad uniongyrchol.

5) Categoriâu arbennig o ddata personol:

Mewn rhai trafodion cyfreithiol y mae'n delio gyda nhw, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn cadw categorïau arbennig o ddata personol gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) wybodaeth sy'n ymwneud â datgelu neu'n ymwneud â hil, tarddiad ethnig, crefydd, data genetig, data biometreg, iechyd, bywyd rhywiol a chyfeiriadedd rhywiol.

Y sylfaen cyfreithiol ar gyfer prosesu data personol categori arbennig dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yw Erthygl 9(2) (f) (hawliadau cyfreithiol a gweithredoedd barnwrol).

6) Pwy sy'n cael defnyddio eich data?

Gellir rhannu data personol gyda'r Adran briodol o fewn y Cyngor.

At hyn, gall y Gwasanaethau Cyfreithiol rannu eich data personol gyda chynghorwyr a darparwyr gwasanaeth er mwyn iddyn nhw allu ein cynorthwyo i brosesu trafodion cyfreithiol. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol ond yn rhannu gwybodaeth os bydd yn ystyried bod angen yr wybodaeth yn rhesymol i'r dibenion hyn.

Yn ychwanegol, lle mae angen hynny dan y gyfraith neu i ymgymryd â thasg gyhoeddus dan swyddogaeth swyddogol y Cyngor, gall y Gwasanaethau Cyfreithiol rannu eich gwybodaeth bersonol gyda:

Chyrrff cyhoeddus eraill:

- Sefydliadau gofal iechyd, cymdeithasol a lles;
- Addysgwyr a chyrrff arholiad;
- Llywodraeth leol a chanolog;
- Yr Ombwdsmon ac awdurdodau rheoleiddio;

- Llysoedd a thribiwnlysoedd;
- Asiantaethau a chyrrff gorfodi cyfreithiol rhyngwladol;
- Awdurdodau gorfodi ac erlyn cyfreithiol;
- Awdurdod cwynion yr heddlu;
- Y gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS)

Sefydliadau / unigolion eraill

- Cyngorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol;
- Cymdeithasau tai a landlordiaid;
- Ymchwilwyr preifat;
- Asiantaethau partner, sefydliadau ac unigolion cymeradwy sy'n gweithio gyda'r heddlu;
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol;
- Cynrychiolwyr cyfreithiol a chyfreithwyr amddiffyn.

Ydy'r data yn cael ei drosglwyddo y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd?

Yn gyffredinol, ni fydd y Cyngor yn prosesu eich data personol y tu allan i'r AEE. Yn yr eithriadau lle mae angen hyn, bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn sicrhau bod rheolaeth diogelu data cyfatebol yn bodoli cyn y trosglwyddir unrhyw ddata personol.

Sut mae'r Cyngor yn diogelu data?

Mae gan y Cyngor bolisiau mewnol mewn grym i sicrhau nad yw'r data y mae'n ei brosesu yn cael ei golli, ei ddinistrio'n anfwriadol, yn cael ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu.

Pan fo'r Cyngor yn cyflogi trydydd partion i brosesu data personol ar ei ran, maen nhw'n gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig.

Bydd sefydliadau eraill y mae'r Cyngor yn rhannu data personol gyda nhw yn gyfrifol i chi yn uniongyrchol am eu defnydd nhw o'r data personol hwnnw. Mae data personol a ddelir gan y sefydliadau hynny yn destun eu polisiau diogelu data eu hunain a fydd yn berthnasol i'w defnydd nhw o'ch data personol.

7) Am ba mor hir y mae'r Cyngor yn cadw eich data?

Bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol ond yn cadw eich data personol am y cyfnod sy'n angenrheidiol.

Fodd bynnag, mae gofyn i'r gwasanaethau Cyfreithiol gadw gwybodaeth gan gynnwys data personol am gyfnod ar ddiwedd y trafodion. Bydd y cyfnod cadw yn dibynnu ar natur y trafodion. Bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn

cadw eich data personol yn unol ag Atodlen Cadw Gwybodaeth yr Awdurdod Lleol.

Nodir yr Atodlen yn llawn isod.

CATEGORIÂU FFEILIO A GAIFF EU STORIO	DYDDIAD DINISTRIO
Trawsgludo	12 mlynedd ar ôl cwblhau (y broses o newid perchnogaeth tir neu eiddo).
Cytundeb gan gynnwys hawddfreintiau, trwyddedau, prydlesi ac ati.	Dinistrio 6 blynedd ar ôl i'r cytundeb ddod i ben neu gael ei derfynu.
Cytundebol Contractau Arferol (a lofnodir) Contractau dan sêl	Dinistrio 6 blynedd ar ôl i delerau'r contract ddod i ben. Dinistrio 12 mlynedd ar ôl i delerau'r contract ddod i ben.
Materion Cyfraith Gyffredin (e.e. meddiannu dyled)	Dinistrio 7 mlynedd ar ôl y cam gweithredu olaf.
Achosion Gofal, unrhyw faterion gofal plant a gwasanaethau oedolion	75 o flynyddoedd
Erlyniadau	Dinistrio 7 mlynedd ar ôl y cam gweithredu olaf.
Achosion cyflogaeth	Dinistrio 7 mlynedd ar ôl y cam gweithredu olaf.

Cyfreithiad Sifil	Dinistrio 7 mlynedd ar ôl y cam gweithredu olaf.
Cyngor Cyfreithiol Cyffredinol	Dinistrio 3 blynedd ar ôl y cam gweithredu olaf.
Cwynion i'r Ombwdsmon	6 blynedd ar ôl i'r defnydd gweinyddol ddod i ben (adroddiadau, datganiadau a gohebiaeth arall).
Cyngor ar Gwynion wedi eu cyfeirio at y Cyngor	Dinistrio 3 blynedd ar ôl y
Ffeiliau Traffig Ffordd a Llwybrau Troed	Dinistrio 7 mlynedd ar ôl y cam gweithredu olaf.
Ffeiliau Gorchymyn Llety	Dinistrio 3 blynedd ar ôl y dyddiad cofrestru.
Unrhyw gategori arall	Dinistrio 3 blynedd ar ôl y cam gweithredu olaf.

8) Ydyn ni'n gwneud penderfyniadau awtomataidd/yn proffilio gyda'ch data?

Na

Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau y gallwch eu harfer:

- Mynediad at – cael copi o'ch data o wneud cais;
- Cywiro – mynnu bod y Cyngor yn newid data anghywir neu anghyflawn;

- Gwrthwynebu, Cyfyngu neu Ddileu - mewn rhai amgylchiadau penodol gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu neu beidio â phrosesu eich data, er enghraifft os nad yw'r data bellach yn angenrheidiol at ddibenion prosesu;
- Hygludedd Data – derbyn a/neu drosglwyddo data a ddarperir i'r Cyngor i sefydliadau eraill (mae hyn yn berthnasol dan amgylchiadau cyfyngedig);
- Cael gwybod am ganlyniadau methu a darparu data i'r Cyngor
- Tynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg (lle mae cydsyniad wedi ei roi);
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau yma, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda legalteam@torfaen.gov.uk.

Gellir cysylltu gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HH. Ffôn 0330 414 6421 neu ebost Wales@ico.org.uk.